



**CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

GŴYS A RHAGLEN

SUMMONS AND AGENDA

ar gyfer

for a

**CYFARFOD RHITHIOL
O GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**VIRTUAL MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

a gynhelir yn

to be held at the

**CYFARFOD RHITHIOL (AR HYN O
BRYD NID OES MODD I'R
CYHOEDD FYNYCHU'R
CYFARFOD)**

**VIRTUAL MEETING (AT PRESENT
MEMBERS OF THE PUBLIC ARE
UNABLE TO ATTEND)**

DYDD MAWRTH, 8 MEDI 2020

**TUESDAY
8 SEPTEMBER 2020**

am 10.30 o'r gloch yb

at 10.30 am

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu recordio a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.

R H A G L E N

1. COFNODION

Cyflwyno, i'w cadarnhau, cofnodion y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2020.

2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

4. RHYBYDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 Y CYFANSODDIAD

- Cyflwyno - y Rhybudd o Gynigiad isod gan y Cynghorydd J Arwel Roberts:-

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths AC, argyfwng hinsawdd yng Nghymru.

Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi dilyn Llywodraeth Cymru ac wedi datgan argyfwng hinsawdd, ac mae awdurdodau eraill yn bwriadu cymryd camau cyffelyb.

“Galwaf ar y Cyngor hwn i ddilyn yr un esiampl ac i gefnogi ymrwymiad i gyflawni Sector Cyhoeddus Carbon Niwtral erbyn 2030. Mae'n rhaid i ni gydnabod nad oes modd i'r cyngor hwn barhau â busnes fel arfer ac mae angen paratoi cynllun gweithredu y gellir ei fonitro a'i weithredu.

Mae'n rhaid i ni roi'r gorau i fuddsoddi mewn tanwydd ffosil, mae angen i ni ddefnyddio ein polisiau cynllunio i gyflawni datblygiadau a chymunedau sero net yn gyflymach.

Rydym mewn sefyllfa i wneud gwahaniaeth er budd cenedlaethau'r dyfodol ac mae dyletswydd foesol arnom i weithredu.”

- Cyflwyno - y Rhybudd o Gynigiad isod gan y Cynghorydd Robert LI Jones:-

“Mae canol ein trefi yma ar Ynys Môn bellach yn cael eu rhoi o dan straen aruthrol wrth i bobl ddewis siopa ar-lein am eu cynnyrch boed hynny'n ddillad, cyflenwadau bwyd, esgidiau a'r rhan fwyaf o bethau eraill. Mae mwy a mwy o siopau gwag ac mae busnesau mawr ac eiddo busnes yn cael eu troi yn llety hunangynhaliol un ystafell wely. Mae hyn wedi digwydd mewn trefi eraill yng Ngogledd Cymru ac wedi arwain at ddirywiad y trefi cyfan.

Rydw i bellach yn gofyn am i'n Cynllun Datblygu ar y Cyd gael ei ail edrych arno

ac i'r ddeddfwriaeth gael ei chryfhau er mwyn rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ddatblygwyr er mwyn iddynt allu prynu'r eiddo hyn a'u troi yn gartrefi o safon a fydd ar gael i deuluoedd ifanc neu'r henoed sy'n dymuno byw mewn eiddo llai, fel dewis amgen i'r datblygiadau un stafell sy'n beryg o ddod yn 'norm' yn ein trefi. Fe allai arwain at weledigaeth o ran rôl bresennol trefi a'u rôl ar gyfer y dyfodol ac y bydd adeiladau newydd ac arloesol yn dod yn lle ein siopau Fictorianaidd sydd wedi gweld dyddiau gwell fel y gwelir mewn trefi ledled Gogledd Cymru. Mae twristiaeth ar gynnydd ymhobman ac mae angen i ni elwa o hynny drwy fod yn lle deniadol i ymweld ag ef tra'n gwneud ein Sir yn rhywle y gallwn ni gyd fod yn falch ohoni.

Oes gennym ni'r ewyllys i gymryd hyn ymlaen fel Awdurdod a chymryd y camau cyntaf er mwyn gwneud hyn yn realiti neu a fyddwn yn parhau i bydru ymlaen a gweld ein hamgylchedd trefol yn parhau i ddirywio.

DWI'N GOFYN AM AGWEDD AR Y CYD GAN HOLL AWDURDODAU GOGLEDD CYMRU ER MWYN ARCHWILIO BETH SY'N DIGWYDD A GWNEUD RHYWBETH AMDANO."

5. CYFLWYNO DEISEBAU

Derbyn un ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

6. YMESTYN Y TERFYN AMSER O DAN ADRAN 85 O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro, yn dilyn penderfyniad y Panel Caniatâd Arbennig o'r Pwyllgor Safonau ar 29 Gorffennaf 2020.

7. PROTOCOL SIARAD CYHOEDDUS MEWN PWYLLGORAU SGRIWTINI

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 9 Mawrth 2020, y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 11 Mawrth 2020, a'r Pwyllgor Gwaith ar 23 Mawrth 2020.

8. ADOLYGIAD O DREFNIADAU ETHOLIADOL SIROL YNYS MÔN

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiadd ar 30 Gorffennaf 2020.

9. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2019/20

Cyflwyno'r Datganiad o'r Cyfrifion ar gyfer 2019/20 fel y cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 1 Medi, 2020.

10. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR AR GYFER 2019/2020

Ystyried Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor yn unol â paragraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

11. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwyno adroddiad Mr John R Jones, Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

12. **ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A SGRIWTINI 2019/20**

Cyflwyno adroddiad Cadeiryddion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

13. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU 2019/20**

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 1 Medi 2020.

14. **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 2019/20**

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 30 Gorffennaf 2020.